# Adran 46 Deddf Plant 1989 (Pwerau'r Heddlu) Protocol ar gyfer Asiantaethau'n Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc Dan 18 Oed

## BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

| Fersiwn | Dyddiad Adolygu | Perchennog | Dyddiad cymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|---|
| V1 | 11/7/21 | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru | 11/7/19 | 11/7/20 |
| V2 | Hydref 2022 | Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru (Is-grŵp Polisïau a Gweithdrefnau) | 24/01/2023 | 24/01/2025 |

## Cyflwyniad

Bwriad y Protocol hwn yw rhoi canllawiau i'w dilyn gan aelod-asiantaethau o Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR) pan nodwyd bod plentyn mewn perygl o niwed sylweddol a phan fo defnyddio pwerau'r heddlu dan Adran 46 o Ddeddf Plant 1989 yn cael ei ystyried. Dylai dilyn y Protocol sicrhau ymateb cyson gan aelod-asiantaethau.

Yr egwyddor bwysicaf yw y **dylai gwahanu rhiant a phlentyn fel arfer fod yn benderfyniad Llys. Os oes modd ceisio gwrandawiad Llys, dylid gwneud hynny.** Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu ar gyfer ymateb yr heddlu mewn argyfwng heb ymostwng i Lys er mwyn symud plentyn o sefyllfa lle mae perygl niwed sylweddol *a* lle bo angen sicrhau diogelwch di-oed y plentyn.

*Ni* ddylid galw ar amddiffyniad yr Heddlu pan fo pwerau neu drefniadau eraill sydd ar gael i asiantaethau'n fwy priodol. Dim ond dan amgylchiadau eithriadol y dylid defnyddio'r pŵer hwn pan nad oes dim dewis arall ar gael.

## Y Fframwaith Cyfreithiol

Dywed Adran 46 o Ddeddf Plant 1989: *"Pan fo gan gwnstabl achos rhesymol dros gredu y byddai plentyn fel arall yn debygol o ddioddef niwed sylweddol fe all symud y plentyn i lety addas a chadw'r plentyn yno; neu gymryd y fath gamau ag sy'n rhesymol i sicrhau atal rhag symud y plentyn o unrhyw ysbyty, neu le arall, lle mae ar y pryd. Pan fo cwnstabl yn arfer y pŵer uchod, ystyrir bod y plentyn dan amddiffyniad yr heddlu."*

Fe all unrhyw swyddog yr heddlu arfer y pŵer. Nid gorchymyn a roddwyd gan lys yw'r pŵer ac, felly, ni ddylid cyfeirio ato fel Gorchymyn Amddiffyniad yr Heddlu.

Unwaith y'i defnyddiwyd, mae modd cadw plentyn dan amddiffyniad yr heddlu am uchafswm o 72 awr. Nid yw'r pŵer yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r heddlu ac nid yw'r Ddeddf yn rhoi pŵer mynediad i'r heddlu – bydd angen ystyried pwerau mynediad eraill h.y. gwarant neu Adran 17 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (mynd i eiddo i achub bywyd). Mae modd defnyddio grym rhesymol wrth arfer y pŵer hwn.

Mae Adran 77 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu bod awdurdod lleol yn gorfod derbyn a darparu llety i blant dan amddiffyniad yr heddlu y gofynnir iddynt eu derbyn dan Adran 46.

Caiff niwed sylweddol ei ddiffinio gan Adran 31(9) o Ddeddf Plant 1989 fel *"cam-drin neu amharu ar iechyd neu ddatblygiad gan gynnwys, er enghraifft, amhariad a ddioddefwyd wrth weld neu glywed cam-drin rhywun arall."* Fe all cam-drin gael ei achosi trwy gamdriniaeth gorfforol, camdriniaeth rywiol, camdriniaeth emosiynol a/neu esgeulustod. Wrth benderfynu a yw'r niwed i blentyn yn sylweddol, bydd iechyd a datblygiad y cyfryw blentyn yn cael ei gymharu â'r hyn y dylid ei ddisgwyl o fewn rheswm o blentyn tebyg, ynghyd â ffactorau eraill fel digonolrwydd gofal rhieiniol, cyd-destun y teulu, ac unrhyw anghenion arbennig sydd gan y plentyn.

## Dewisiadau ar gyfer Amddiffyn Plentyn mewn Argyfwng

Fe all camau ar gyfer amddiffyn plentyn fod yn un o'r pum dewis isod. Dylid ystyried y tri dewis cyntaf bob amser cyn symud plentyn trwy ddefnyddio pwerau gorfodi:

- Bod y camdriniwr honedig yn cytuno i adael yr aelwyd. Efallai y bydd gofyn i wasanaethau lleol roi help a chymorth ymarferol ar faterion fel llety;

- Bod y rhieni / gofalwyr yn gwneud trefniadau diogel i'r plentyn gael gofal o fewn y teulu estynedig yn amodol ar wneud gwiriadau diogelu o ran eu haddasrwydd, a ddylai gael eu disgrifio mewn gweithdrefnau lleol (gwelwch isod);

- Bod yr awdurdod lleol yn darparu llety i'r plentyn dan Adran 76 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gyda chytundeb y rhai â chyfrifoldeb rhiant;

- Bod y Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn Brys;

- Bod yr heddlu'n defnyddio eu pwerau amddiffyn dan amgylchiadau eithriadol pan nad oes dim dewis arall ar gael.

Lle bo angen defnyddio pwerau gorfodi i symud plentyn, dylai awdurdod lleol, ble bynnag y bo modd ac **oni bai fod diogelwch plentyn mewn perygl *dybryd* fel arall**, wneud cais am Orchymyn Amddiffyn Brys (EPO), yn unol â'r egwyddor y dylai gwahanu rhiant a phlentyn fod yn benderfyniad i Lys ei wneud, ac ni ddylai geisio defnyddio pwerau amddiffyniad yr heddlu i'r diben hwn. Dylai holl awdurdodau lleol fod â threfniadau lleol ar gyfer gwneud ceisiadau am Orchmynion Amddiffyn Brys allan o oriau'n gyflym a heb fiwrocratiaeth ormodol.

Ni all plentyn heb ei eni fod yn wrthrych Gorchymyn Amddiffyn Brys. Os credir bod plentyn heb ei eni'n debygol o fod mewn perygl o niwed sylweddol, dylid ystyried Amddiffyniad yr Heddlu fel y ffordd briodol o ddiogelu'r plentyn yn union ar ôl genedigaeth er mwyn caniatáu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol gymryd camau diogelu angenrheidiol. Bydd hyn yn gofyn cydweithio agos rhwng yr Heddlu, Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

## Galw am Amddiffyniad yr Heddlu

Cyn gwneud y penderfyniad i alw ar Amddiffyniad yr Heddlu Adran 46 dylai swyddog yr heddlu *bob amser* geisio cadw cyswllt â'r Gwasanaethau Cymdeithasol a swyddog uwch i drafod holl ddewisiadau ar gyfer diogelu'r plentyn. Gallai'r cadw cyswllt hwn fod yn uniongyrchol o'r fan a'r lle neu drwy oruchwyliwr y swyddog. Mae swyddog y Gwasanaethau Cymdeithasol ar ddyletswydd yn ystod oriau swyddfa a gweithiwr cymdeithasol / uwch-reolwr argyfwng allan o oriau (*Sylwch* - Efallai nad yw'r gweithiwr cymdeithasol argyfwng yn weithiwr cymdeithasol Gwasanaethau Plant unswydd gyda gwybodaeth fanwl o arferion mewn perthynas â gofal cymdeithasol plant). Os yw'r plentyn yn achos agored neu'n hysbys fel arall i'r Gwasanaethau Cymdeithasol mae'n debygol y bydd ganddynt at wybodaeth ar gael a allai, trwy gadw cyswllt yn gynnar, gynorthwyo gyda gwneud penderfyniadau a chynnig dewisiadau gwahanol eraill yn lle galw ar Amddiffyniad yr Heddlu.

Mewn achosion allan o oriau, yn enwedig yn ystod y nos oriau, lle caiff defnyddio pwerau gorfodi i ddiogelu plentyn ei ystyried yn angenrheidiol, fe all fod anawsterau ymarferol wrth geisio cael Gorchymyn Amddiffyn Brys yn gyflym. Yn yr achosion hynny, bydd angen ystyried amser a phethau ymarferol cael Gorchymyn Amddiffyn Brys rhagor na galw ar Amddiffyniad yr Heddlu i ddiogelu mewn argyfwng. ***Bydd ymgysylltu'n gynnar â'r gweithiwr cymdeithasol argyfwng yn cynorthwyo'r broses benderfynu hon yn sylweddol.***

Mae'r Protocol hwn yn derbyn y bydd sefyllfaoedd, er enghraifft pan fo perygl dybryd i ddiogelwch y plentyn, pan fydd yn ***angenrheidiol*** i Swyddog Heddlu weithredu ***ar unwaith*** heb gyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol neu swyddogion uwch er mwyn diogelu plentyn.

Er mwyn galw ar Adran 46, rhaid i swyddog heddlu *gredu* y byddai'r plentyn yn dioddef niwed sylweddol heb fynd dan amddiffyniad yr heddlu. Rhaid i swyddog sy'n ystyried galw ar Amddiffyniad yr Heddlu o ran plentyn hefyd ystyried unrhyw berygl cyfredol o niwed sylweddol i unrhyw blant eraill.

Mae gan swyddogion ddwy swyddogaeth wahanol ac ar wahân mewn cysylltiad ag amddiffyniad yr heddlu – y '**Swyddog Dechrau**' a'r '**Swyddog Penodedig**'. Y Swyddog Dechrau yw'r swyddog sy'n cymryd y plentyn i amddiffyniad yr heddlu ac sy'n gwneud yr ymholiadau dechreuol. Y Swyddog Penodedig yw'r swyddog, Arolygydd fel arfer, sy'n cymryd trosolwg annibynnol ynghylch dan ba amgylchiadau y cymrwyd y plentyn i amddiffyniad yr heddlu. *Ni chaiff* yr un swyddog wneud y ddwy swyddogaeth wahanol hyn.

Wrth benderfynu a ddylid galw ar y pŵer Adran 46, dylid cynnwys dymuniadau'r plentyn, os yw'n gallu deall, yn y broses benderfynu. Dylai'r Swyddog Dechrau ddweud wrth y plentyn beth sy'n digwydd drwy gydol y broses. Dylai holl weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r penderfyniad gofio bod symud plentyn o ofal y rhiant ar unrhyw adeg yn gallu bod yn brofiad ysgytiol i'r plentyn a bod teimladrwydd yn hanfodol.

Os mai'r penderfyniad yw galw ar amddiffyniad yr heddlu, ac unwaith y cymrwyd camau diogelu priodol, rhaid i'r Swyddog Dechrau lenwi Ffurflen Amddiffyniad yr Heddlu cyn diwedd y cyfnod dyletswydd hwnnw ac, os na wnaed hynny eisoes, *cadw cyswllt â'r Gwasanaethau Cymdeithasol mor fuan ag y bo'n ymarferol o fewn rheswm*. Bydd y drafodaeth hon yn cynnwys cytuno ar gamau gweithredu a chael hyd i lety addas i'r plentyn. Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal lle cafwyd y plentyn *a* hefyd yr un lle mae'r plentyn yn byw fel arfer, os yw'n wahanol. Rhaid cofnodi'r union amser y rhoddwyd plentyn dan amddiffyniad yr heddlu.

Rhaid i'r Swyddog Dechrau hysbysu rhieni'r plentyn, unrhyw un arall gyda chyfrifoldeb rhiant, ac unrhyw un yr oedd y plentyn yn byw gyda nhw cyn mynd dan amddiffyniad yr heddlu bod y plentyn yn wrthrych amddiffyniad yr heddlu Adran 46. Bydd y Swyddog Dechrau hefyd yn dweud wrth y plentyn pa gamau sy'n cael eu cymryd.

Bydd y Swyddog Dechrau'n cadw cyswllt â'r Swyddog Penodedig i gytuno ar gamau gweithredu a rhoi diweddariadau.

Rhaid i'r Swyddog Penodedig fod ar radd Arolygydd o leiaf. Swyddogaeth y Swyddog Penodedig yw sicrhau y galwyd ar amddiffyniad yr heddlu'n briodol; bod â chyfrifoldeb dros ymholi i achosion lle galwyd ar amddiffyniad yr heddlu; fod â golwg dros y broses drwy gydol y cyfnod; sicrhau bod y Swyddog Dechrau'n cwblhau'r camau angenrheidiol; a sicrhau bod y llety lle rhoddwyd y plentyn yn

briodol ac nad yw'n rhoi'r plentyn mewn mwy o berygl. Unwaith y gorffennwyd yr ymholiad, a fydd yn cynnwys trafod strategaeth gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol, rhaid i'r Swyddog Penodedig ryddhau'r plentyn o amddiffyniad yr heddlu oni bai fod achos rhesymol i gredu y bydd y plentyn yn dal yn debygol o ddioddef niwed sylweddol wrth ryddhau. Bydd y Swyddog Penodedig yn llenwi Ffurflen Amddiffyniad yr Heddlu gan gynnwys amser rhyddhau'r plentyn o Amddiffyniad yr Heddlu.

Rhaid enwi Swyddog Penodedig drwy gydol y cyfnod pan fo plentyn dan Amddiffyniad yr Heddlu. Ar ddiwedd cyfnod dyletswydd Swyddog Penodedig, rhaid gwneud trosglwyddiad gan gynnwys Ffurflen Amddiffyniad yr Heddlu i'r Swyddog Penodedig nesaf a fydd yn parhau'r swyddogaeth.

## Diweddu Amddiffyniad yr Heddlu

Dylid rhyddhau plentyn o amddiffyniad yr heddlu'n unig:

- os yw'r Swyddog Penodedig yn ystyried nad yw mewn perygl mwyach; neu
- os gwnaed Gorchymyn Amddiffyn Brys (EPO); neu
- os yw'r awdurdod lleol wedi darparu llety i'r plentyn dan adran 20 y Ddeddf (fel y diwygiedig gan Adran 76 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) ac yr ystyrir yw nad yw mwyach mewn perygl o niwed sylweddol.

Dylid gwneud y penderfyniad i ryddhau plentyn o amddiffyniad yr heddlu *yn unig* ar ôl trafod gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Os nad yw'r Swyddog Penodedig yn rhan o'r drafodaeth hon i ystyried diweddu amddiffyniad yr heddlu, rhaid ei hysbysu o'r canlyniad mor fuan ag y bo modd. **Fe all lleoli plentyn yn llety'r gwasanaethau cymdeithasol neu ofal maeth ddibynnu'n gyfreithiol ar fod amddiffyniad yr heddlu'n aros mewn grym** nes bod y Gwasanaethau Cymdeithasol mewn sefyllfa i wneud cais am orchymyn llys neu wneud trefniadau gwirfoddol ar gyfer gofal y plentyn.

## Troseddau Cysylltiedig ag Amddiffyniad yr Heddlu

Dan Adran 49 o Ddeddf Plant 1989 mae'n drosedd cipio plentyn neu beri dianc plentyn sydd mewn gofal, sy'n wrthrych EPO neu sydd dan amddiffyniad yr heddlu. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw un gan gynnwys rhywun sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y cyfryw blentyn.

## Llety Addas

Pan wneir y penderfyniad i roi plentyn dan amddiffyniad yr heddlu a symud y cyfryw blentyn, rhaid darparu'r llety lle'r aiff y plentyn gan neu ar ran yr awdurdod lleol. Byddai hyn fel arfer yn golygu llety'r awdurdod lleol pan fo'n bodoli, cartref plant cofrestredig neu ofal maeth. Rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol sy'n delio â'r achos ymgynghori â Rheolwr ar Ddyletswydd / Rheolwr ar Alwad y Gwasanaethau Cymdeithasol am awdurdod i letya'r plentyn (Sylwch - nid oes gan Geredigion unrhyw ddarpariaeth rheolwr ar alwad ar hyn o bryd).

Fodd bynnag, os yw'r Swyddog Penodedig a'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried hynny'n briodol, mae modd lleoli'r plentyn gyda pherthnasau neu ofalwyr priodol eraill. Pan fo hyn yn cael ei ystyried, rhaid craffu ar drefnau'r heddlu ac asiantaethau o ran y gofalwyr arfaethedig ac unrhyw bobl eraill yn yr eiddo. Fe all gwiriadau gynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, PNC, PND, ViSOR, cronfeydd data cudd-wybodaeth, Cofrestr Amddiffyn Plant, cofnodion y Gwasanaethau Cymdeithasol. Rhaid i'r Swyddog Penodedig fod yn fodlon nad yw trefniadau gyda pherthnasau neu ofalwyr arfaethedig eraill yn rhoi'r plentyn mewn mwy o berygl.

*Nid* yw gorsaf heddlu'n cael ei hystyried yn llety addas a dylid mynd â phlentyn dan amddiffyniad yr heddlu i orsaf heddlu'n unig os aiff hi i'r pen, fel diffyg llety'r awdurdod lleol ar gael ar unwaith, ac yna am gyfnod byr yn unig. Os yw hyn yn anochel, mae angen sicrhau bod y plentyn yn gorfforol ddiogel a chysurus; bod bwyd a diod ar gael; bod cyfleusterau toiled ac ymolchi ar gael; a than oruchwyliaeth bob amser.

## Y Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae Adran 76 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu bod awdurdod lleol yn gorfod darparu llety i unrhyw blentyn anghenus yn eu hardal sy'n ymddangos iddynt fel rhywun ag angen llety o ganlyniad i'r canlynol: bod neb â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn; bod y plentyn ar goll neu'n adawedig; neu'r ataliwyd bwy bynnag a fu'n gofalu am y plentyn (boed hynny'n barhaol neu beidio, ac am ba reswm bynnag) rhag darparu llety neu ofal addas.

Mae adran 77 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi bod rhaid i awdurdod lleol ddarparu llety i blant sy'n cael eu hamddiffyn gan yr heddlu, y mae'n ofynnol iddynt eu derbyn o dan Adran 46. Er gwaethaf y rhwymedigaeth statudol hon, rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol brys y tu allan i oriau swyddfa ymgynghori â rheolwr ar alwad y maes Gwasanaethau Cymdeithasol perthnasol i gael awdurdod i letya'r plentyn. Yn ystod oriau swyddfa, rhaid ymgynghori â'r Rheolwr ar Ddyletswydd.

Unwaith yr hysbyswyd awdurdod lleol gan yr heddlu bod plentyn dan amddiffyniad yr heddlu, mae Adran 47 o Ddeddf Plant 1989 yn gofyn gwneud ymholiadau i benderfynu a oes angen cymryd camau neu beidio i ddiogelu neu hybu lles y plentyn.

Ni ddylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol ofyn i'r heddlu arfer eu pŵer Adran 46 oni bai fod y perygl i'r plentyn yn ddybryd. Mewn argyfyngau, dylai'r Gwasanaethau Cymdeithasol fod yn gwneud cais i'r Llys am Orchymyn Amddiffyn Brys dan Adran 44 y Ddeddf, neu'n edrych ar ddewisiadau diogelu eraill.

Pan fo awdurdod lleol wedi rhoi plentyn mewn llety yn ardal ail awdurdod lleol, ac y galwyd ar Amddiffyniad yr Heddlu Adran 46, mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol cychwynnol a'r awdurdod lleol lle cafwyd y plentyn i ddiogelu'r cyfryw blentyn. Llety ar unwaith yw cyfrifoldeb yr awdurdod lleol lle cafwyd y plentyn. Dylai trafodaeth ddilynol gynnwys y ddau awdurdod lleol a'r heddlu ynghylch parhad llety ac anghenion diogelu'r plentyn.

## Rhifau Cyswllt

| | Oriau Swyddfa | Allan o Oriau |
|---|---|---|
| Sir Gâr | 01554 742322 | 0300 333 2222 |
| Ceredigion | 01545 574000 | 0300 4563554 |
| Sir Benfro | 01437 776444 | 0300 333 2222 |
| Powys | 01597 827553 | 0345 0544 847 |

## Rhagor o Wybodaeth

Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 5 – Trin Achosion Unigol i Ddiogelu Plant mewn Perygl *(Codau Ymarfer Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014)*

Arferion Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona – Amddiffyniad yr Heddlu:
https://www.app.college.police.uk/app-content/major-investigation-and-public-protection/child-abuse/concern-for-a-child/#police-protection

Cylchlythyr y Swyddfa Gartref 017/2008: Dyletswyddau a phwerau'r heddlu dan Ddeddf Plant 1989